**BBC**

**Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg**

**2023-24**

## Cysylltu

Cysylltwch â ni os hoffech gael mwy o wybodaeth am yr adroddiad hwn neu unrhyw agwedd ar safonau'r Gymraeg o fewn y BBC:

**03703 500 700 (dydd Llun i ddydd Gwener 09.30 tan 19.30)**

**Gwasanaethau Cynulleidfa BBC Cymru Wales, Bangor, LL57 2BY.**

***Mae'r adroddiad yma ar gael yn Saesneg / This report is available in English***

BBC CYMRU WALES

## CYFLWYNIAD

Mae safonau'r Gymraeg yn nodi sut dylid ystyried y Gymraeg mewn perthynas â'r ffordd rydyn ni'n ymgysylltu â'r cyhoedd ac yn darparu gwybodaeth a gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru. Mae'r adroddiad hwn, sy'n cwmpasu'r flwyddyn ariannol 2023-24 yn rhoi trosolwg o'r ffordd rydyn ni wedi cydymffurfio â'r safonau.

Mae'r BBC wedi ymrwymo yn ein hymdrechion i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion safonau'r Gymraeg, ac rydyn ni'n cymryd ein cyfrifoldeb tuag at yr iaith o ddifri. Mae'r safonau'n helpu i sicrhau ein bod yn darparu gwasanaethau Cymraeg o ansawdd uchel a chyson i'r cyhoedd.

Mae'r Gymraeg yn rhan hanfodol o genhadaeth BBC Cymru Wales ac mae gennym rôl hollbwysig wrth ddarparu cynnwys sy'n hysbysu, addysgu ac yn diddanu drwy gyfrwng y Gymraeg. Gwnawn hynny mewn amrywiaeth o ffyrdd, ar draws BBC Radio Cymru, BBC Radio Cymru 2, BBC Cymru Fyw a'n cynnwys teledu a digidol ar gyfer S4C.

Er nad yw cynnwys golygyddol yn dod o dan sgôp cyfreithiol y safonau, rydyn ni'n gweld ein gwaith yn hanfodol i helpu i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a'i hyrwyddo.

### Hyrwyddo'r Gymraeg

Mae'r BBC wedi hyrwyddo'r Gymraeg mewn amryw o ffyrdd yn ystod y cyfnod dan sylw (daw'r gweithgareddau hyn y tu hwnt i gwmpawd Safonau'r Gymraeg).

Y prif ddatblygiad oedd lansio Radio Cymru 2 fel gwasanaeth llawn gydag oriau estynedig ar 18 Mawrth 2024. Daeth hyn yn dilyn caniatâd rheoleiddiwr y BBC, Ofcom. Pwrpas y gwasanaeth yw cynnig dewis arall yn lle Radio Cymru i'r rhai sydd eisiau adloniant a cherddoriaeth drwy gydol y dydd. Mae'r gwasanaeth wedi'i anelu at gynulleidfaoedd iau a hefyd y rhai sy'n llai rhugl eu Cymraeg neu'n dysgu Cymraeg.

Roedd rhai o'r datblygiadau eraill yn cynnwys:

- Wythnos Dathlu Dysgu Cymraeg yn ystod Hydref 2023. Darparodd yr wythnos hon gynnwys  ar Radio Cymru a gwasanaethau eraill BBC Cymru yn dathlu popeth sy'n ymwneud â dysgu Cymraeg. Datblygwyd yr wythnos mewn partneriaeth â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.
- Cafwyd podlediad wythnosol i ddysgwyr ar BBC Sounds, sy'n cynnwys *Sgwrsio* gyda Nick Yeo a *Pigion* gydag Aled Hughes.
- Datblygwyd erthygl wythnosol ar Cymru Fyw sy'n rhoi geirfa ddefnyddiol i ddysgwyr ar y diwedd.
- Mae URL newydd wedi'i greu sy'n cynnwys adnoddau i bobl sy'n dysgu Cymraeg - www.bbc.co.uk/dysgucymraeg

**Trwyddedu Teledu**

Gellir dod o hyd i adroddiad blynyddol gwasanaeth Trwyddedu Teledu fan hyn

## UCHAFBWYNTIAU 2023-24

Yn ystod y flwyddyn, ac yn dilyn ymgynghoriad â Chomisiynydd y Gymraeg, cafodd ein hysbysiad cydymffurfio ei amrywio i gynnwys safon ychwanegol (safon 53) sy'n ymwneud ag apiau. Fe wnaethom gytuno â'r egwyddor o ychwanegu'r safon, ac roedd yr ymgynghoriad yn gyfle gwerthfawr i gytuno ar safbwynt rhesymol a chymesur o ran y geiriad, ac i bob pwrpas, y ffordd y byddai'r safon yn cael ei gosod.

Mae'r safon newydd, fel y cytunwyd arni, yn nodi bod:

*"Rhaid i bob ap rydych yn ei gyhoeddi weithredu'n llawn yn Gymraeg, a rhaid peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn perthynas â'r ap hwnnw.*

- *Rhaid i chi gydymffurfio'n llawn â safon 53 mewn perthynas ag ap Trwyddedu Teledu erbyn 9 Mai 2024.*
- *Rhaid i chi gydymffurfio'n llawn â safon 53 mewn perthynas ag elfennau gweinyddol yr apiau symudol canlynol erbyn 9 Mai 2024:*
    - *BBC Sounds*
    - *BBC iPlayer*
    - *BBC Cymru Fyw*
    - *BBC Bitesize*
    - *BBC News*
- *Rhaid i chi gydymffurfio'n llawn â safon 53 mewn perthynas ag elfennau gweinyddol yr apiau teledu canlynol erbyn 30 Mehefin 2025:*
    - *BBC Sounds*
    - *BBC iPlayer*

*Yn y cyd-destun hwn, mae 'elfennau gweinyddol' yn cynnwys:*

1. *Y rhyngwyneb fel y mae'n ymwneud â chreu cyfrif, gweinyddu cyfrifon a llywio parhaus.*
2. *Cadarnhau gosodiadau fel rhan o'r broses o sefydlu a gweinyddu cyfrif yn unig*
3. *Mewngofnodi, gan gynnwys sefydlu cyfrif newydd;*
4. *Dewislenni o fewn cyd-destun creu a chynnal cyfrif sy'n ymwneud â thelerau ac amodau rhwng defnyddiwr a'r BBC.*
5. *Gwybodaeth Gyffredinol am y cyfrif sy'n ymwneud â thelerau ac amodau rhwng defnyddiwr a'r BBC.*

Tra'n croesawu safon ychwanegol fel ffordd o egluro ein dyletswyddau yn y maes hwn, mae'n ymrwymiad sylweddol i'r BBC. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd y gwaith, o dan arweiniad tîm cynhyrchion y BBC, yn dod yn ei flaen yn dda gydag elfennau gweinyddol apiau symudol ar gael yn Gymraeg. Mae'r gwaith sy'n ymwneud ag apiau teledu yn mynd rhagddo, a chaiff hwn ei gwblhau cyn y dyddiad gosod, sef Mehefin 2025.

Yn ystod y flwyddyn, mae ein pwyslais wedi parhau ar sicrhau bod ein prosesau cydymffurfiaeth yn parhau'n gadarn, ac roedd yn cynnwys parhau i fonitro ein gwasanaethau a'n prosesau i sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau a gweithredu camau gwella yn dilyn ein hadolygiad cydymffurfio diweddaraf. Roedd hyn yn cynnwys sesiynau briffio ychwanegol a chanllawiau cydymffurfiaeth ar gyfer y tîm diogelwch.

## SAFONAU CYFLENWI GWASANAETHAU

### Trosolwg

O ychwanegu safon 53, mae ein Hysbysiad Cydymffurfio bellach yn golygu bod rhaid i'r BBC gydymffurfio â 74 o safonau Cyflenwi Gwasanaethau, sy'n berthnasol ar draws ystod eang o'n gwasanaethau; serch hynny, nid ydynt yn cwmpasu pob agwedd ar ein gweithgareddau. O dan Adran 67 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae darlledu wedi'i eithrio fel gweithgaredd – mae hyn yn cynnwys radio, teledu a chynnwys cyfryngau digidol a phenderfyniadau golygyddol.

Mae ein Hysbysiad Cydymffurfio yn cadarnhau bod y safonau Cyflenwi Gwasanaethau yn berthnasol i'r meysydd canlynol:

- Gwasanaethau Cynulleidfa – sy'n golygu darparu gwasanaethau cwsmer gan y BBC wrth ymateb i adborth ac ymholiadau a dderbynnir gan gynulleidfaoedd ar ei blatfformau;
- Gwasanaethau Corfforaethol – sy'n golygu darparu gwybodaeth, cyhoeddusrwydd a gwasanaethau eraill i'r cyhoedd fel rhan o swyddogaethau ymgynghori, polisi, strategaeth, Adnoddau Dynol, eiddo a chyllid BBC Cymru nad ydynt yn uniongyrchol berthnasol i raglenni;
- Trwyddedu Teledu – sy'n golygu gweinyddu a gorfodaeth ffi'r drwydded deledu gan y BBC a'i hasiantau.

### Cwynion a dderbyniwyd ynglŷn â chydymffurfio

Yn ystod y cyfnod adrodd, derbyniodd y BBC 3 cwyn mewn perthynas â methiannau posib â'r safonau Cyflenwi Gwasanaethau. Gweler isod am fanylion.

| Trosolwg byr o'r gŵyn | Canlyniad/ Canfyddiadau |
|---|---|
| CS1159 – Derbyniodd Comisiynydd y Gymraeg gwynion wrth aelod o'r cyhoedd ynglŷn â diffyg is-deitlau Cymraeg ar BBC iPlayer. | Cadarnhaodd Comisiynydd y Gymraeg na fyddai ymchwiliad yn cael ei gynnal gan nad oedd y safon berthnasol gan nad yw is-deitlau ar raglenni yn dod o dan bwerau Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae Adran 67 o'r Mesur yn eithrio |

| | |
|---|---|
| | darlledu ac yn cyfeirio'n benodol at is-deitlau. |
| CS1160 – Derbyniodd Comisiynydd y Gymraeg gwynion wrth aelod o'r cyhoedd ynglŷn â diffyg is-deitlau Cymraeg ar BBC iPlayer. | Fel yr uchod, cadarnhaodd Comisiynydd y Gymraeg na fyddai ymchwiliad yn cael ei gynnal gan nad oedd y safon berthnasol gan nad yw is-deitlau ar raglenni yn dod o dan bwerau Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae Adran 67 o'r Mesur yn eithrio darlledu ac yn cyfeirio'n benodol at is-deitlau. |
| CS1162 – Derbyniwyd cwyn am gystadleuaeth Canwr y Byd, yn benodol bod<br>a) Y Gymraeg wedi'i thynnu oddi ar logo swyddogol Canwr y Byd<br>b) Y Gymraeg wedi'i hepgor pan gyhoeddodd y Fonesig Kiri Te Kanawa enillydd pob rownd o'r llwyfan.<br>c) Bod y BBC wedi tynnu Hen Wlad fy Nhadau o'r darllediad ar ddiwedd pob un o rowndiau agoriadol y gystadleuaeth. | Yn dilyn ystyriaeth gychwynnol, cadarnhaodd Comisiynydd y Gymraeg na fyddai ymchwiliad yn cael ei gynnal gan nad yw rhaglenni teledu yn dod o dan bwerau Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae Adran 67 o'r Mesur yn eithrio darlledu. |

## SAFONAU LLUNIO POLISI

**Trosolwg**

Daeth ein dull newydd a chryfach o roi ystyriaeth i'r Gymraeg wrth adolygu a diweddaru polisïau a gwneud penderfyniadau polisi yn weithredol. Mae'r broses ddiwygiedig yn cynnwys defnyddio adnodd sgrinio a chanllawiau gwell i helpu cydweithwyr.

**Cwynion**

Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion wrth y cyhoedd yn uniongyrchol na thrwy Gomisiynydd y Gymraeg ynglŷn â chydymffurfiaeth y BBC yn y maes hwn.

## SAFONAU GWEITHREDOL

**Trosolwg**

Mae ein Hysbysiad Cydymffurfio yn golygu bod rhaid i'r BBC gydymffurfio â 48 o safonau Gweithredol. Mae'r safonau yn helpu i siapio ein hymrwymiad y gall ein staff yng Nghymru fyw eu bywydau gwaith drwy gyfrwng y Gymraeg os mai dyna eu dymuniad. Mae hyn yn cynnwys trafod materion sy'n ymwneud â'u cyflogaeth yn Gymraeg.

Fel rhan o’n proses recriwtio, gall ymgeiswyr ddewis cyflwyno ffurflenni cais a chael cyfweliad yn Gymraeg.

Mae staff y BBC yn cael eu hannog a’u cefnogi i ddysgu’r iaith. Yn ystod y flwyddyn, cynigiwyd cyrsiau Cymraeg a sesiynau gloywi. Mae staff hefyd yn cael eu rhyddhau i fynychu cyrsiau ‘Iaith Gwaith’.

Darperir gwasanaethau cyfieithu yn ystod ein cyfarfodydd holl staff (hybrid) sy’n galluogi staff i ymgysylltu yn eu dewis iaith ac yn gwella amlygrwydd yr iaith yn ein cyfarfodydd.

**Recriwtio (Safon 164ch)**

Yn unol â gofynion safon 132, mae gennym broses ar waith i nodi swyddi o fewn y BBC lle mae angen sgiliau Cymraeg. Ein hadran Adnoddau a Thalent sy’n arwain y gwaith hwn ac mae adnodd wedi'i ddatblygu i nodi'r swyddi hynny. Rheolwyr sy’n gyfrifol am asesu rôl yn y lle cyntaf cyn dechrau'r broses recriwtio, a chaiff matrics ei gwblhau i gasglu tystiolaeth. Ar ôl cwblhau'r matrics, caiff rolau eu rhyddhau i’w hysbysebu.

Yn ystod y cyfnod adrodd, cafodd 236 o swyddi newydd neu swyddi gwag eu hysbysebu. Cawsant eu rhoi yn y categorïau canlynol:

| Asesiad | Total |
|---|---|
| Roedd sgiliau Cymraeg yn hanfodol | 51 |
| Roedd angen dysgu sgiliau Cymraeg pan benodwyd rhywun i’r swydd | - |
| Roedd sgiliau Cymraeg yn ddymunol | 3 |
| Nid oedd sgiliau Cymraeg yn angenrheidiol | 182 |

**Sgiliau Cymraeg (Safon 164a)**

Mae’r dull y mae’r BBC yn ei ddefnyddio i gasglu’r wybodaeth yn fframwaith ar gyfer yr hunanasesiad sy'n seiliedig ar fframwaith ALTE (The Association of Language Testers of Europe), fel y cyfeirir ato yn y ddogfen ganllaw a luniwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg ‘Recriwtio: Ystyried y Gymraeg’.

Dyma ganlyniadau'r asesiad ar-lein diwethaf yn seiliedig ar 352 o ymatebion (cyfradd ymateb o 27%):

| Meini prawf asesu | Lefel ALTE | Cyfanswm |
|---|---|---|
| Sgiliau siarad | 1 (dim sgil) | 49 |
| | 2 | 80 |
| | 3 | 13 |
| | 4 | 14 |
| | 5 | 21 |
| | 6 (rhugl) | 175 |
| Sgiliau gwrando | 1 (dim sgil) | 44 |

| | | |
|---|---|---|
| | 2 | 69 |
| | 3 | 29 |
| | 4 | 12 |
| | 5 | 14 |
| | 6 (uchel) | 184 |
| Sgiliau darllen | 1 (dim sgil) | 44 |
| | 2 | 68 |
| | 3 | 26 |
| | 4 | 15 |
| | 5 | 21 |
| | 6 | 178 |
| Sgiliau ysgrifennu | 1 (dim sgil) | 76 |
| | 2 | 57 |
| | 3 | 21 |
| | 4 | 17 |
| | 5 | 37 |
| | 6 (uchel) | 144 |

**Cwynion**

Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion wrth y cyhoedd yn uniongyrchol na thrwy Gomisiynydd y Gymraeg ynglŷn â chydymffurfiaeth y BBC gyda'r safonau Gweithredol.

## EIN PWYSLAIS AR GYFER Y FLWYDDYN SYDD I DDOD

Mae ein blaenoriaeth i sicrhau ein bod yn parhau i gydymffurfio â'r safonau yn parhau. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel i'r cyhoedd a staff BBC Cymru, ac yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, byddwn yn canolbwyntio ar:

- Sicrhau y cyflawnir ein hymrwymiadau mewn perthynas ag elfennau gweinyddol ein hapiau teledu, yn unol â gofynion safon 53.
- Darparu sesiynau diweddaru am safonau'r Gymraeg i'r holl staff.
- Adolygu a diweddaru'r holl ganllawiau mewnol a phrosesau cydymffurfio i sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r arferion gwaith sydd ohoni.
- Cynnal adolygiad sicrwydd o'n gwasanaeth Adnoddau Dynol.